**Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc**
**Children and Young People Committee**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Jocelyn Davies AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd, CF99 1NA

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff CF99 1NA

15 Hydref 2012

Annwyl Jocelyn

Yn ei gyfarfod ar 10 Hydref, bu'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn craffu ar waith y Gweinidog Addysg a Sgiliau a'r Dirprwy Weinidog Sgiliau a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyllideb ddrafft y ddau bortffolio sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc.

Roedd y Pwyllgor yn teimlo bod y dull o gyflwyno'r gyllideb wedi gwella, er bod Aelodau yn dal i bryderu ynghylch y diffyg tryloywder sy'n gysylltiedig â gwariant o'r gyllideb ar blant, yn enwedig o fewn y gyllideb iechyd. Mae'r Pwyllgor hefyd yn awyddus bod y dull o gyflwyno'r gyllideb yn cael ei ddatblygu dros amser er mwyn creu cysylltiad clir rhwng dyraniadau'r gyllideb a'r canlyniadau a ragwelir ar gyfer plant a phobl ifanc.

Roedd y Pwyllgor yn pryderu am y diffyg darpariaeth o fewn y ddwy gyllideb ar gyfer unrhyw gostau ychwanegol a allai godi o ddeddfwriaeth.

Roedd y Pwyllgor wedi drysu gan ddull Llywodraeth Cymru o neilltuo cyllideb, a oedd i weld yn amrywio rhwng Gweinidogion. Dywedodd y Gweinidog Iechyd wrthym nad oedd hi'n awyddus i neilltuo cyllideb o fewn ei phortffolio, tra y darparodd y Gweinidog Addysg wybodaeth am arian a oedd wedi'i neilltuo o fewn ei bortffolio, er enghraifft y Grant Effeithiolrwydd Ysgolion. Credwn, felly, bod angen egwyddor sylfaenol sy'n nodi pryd y bydd y drefn o neilltuo yn cael ei defnyddio a'r rheswm dros hynny.

Bae Caerdydd
Cardiff Bay
CF99 1NA

E-bost /Email: PwyllgorPPI@cymru.gov.uk

Er i'r ddau Weinidog honni na fyddai'r gyllideb dynn eithriadol yn effeithio ar eu gallu i gyflawni eu hamcanion polisi, roedd y Pwyllgor yn teimlo y gallai hyn arwain at drafferthion petai angen arian ychwanegol neu arian wrth gefn er mwyn gallu cyflawni amcanion y Rhaglen Lywodraethu.

Byddwn yn ysgrifennu at y Gweinidogion perthnasol yn nodi ein pryderon mewn rhagor o fanylder, ac mae rhain wedi'u cynnwys fel atodiad, er gwybodaeth.

Yn gywir

**Christine Chapman AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor**

**Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc**
**Children and Young People Committee**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Leighton Andrews AC
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd, CF99 1NA

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff CF99 1NA

15 Hydref 2012

Annwyl Leighton

Hoffem ddiolch i chi a'r Dirprwy Weinidog Sgiliau am ddod i gyfarfod y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar 19 Hydref fel rhan o'n gwaith o graffu ar gynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14.

Hoffai'r Pwyllgor gyflwyno mater i chi i'w ystyried mewn perthynas â Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru). Rydym hefyd wedi ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a bydd cynnwys y ddau lythyr yn cael eu hanfon ymlaen i'r Pwyllgor Cyllid er mwyn ei hwyluso gyda'r gwaith craffu cyffredinol strategol ar y Gyllideb Ddrafft a bydd yn ymddangos ar wefan y Pwyllgor.

**Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru)**

Mae'r Pwyllgor wedi lleisio ei bryderon yn flaenorol ynghylch cyfanswm y gost o roi'r Canllawiau Gwella Ysgolion ar waith gan nodi ei farn bod y Gweinidog wedi tanamcangyfrif yn sylweddol y costau sy'n gysylltiedig â chynnal paneli dyfarnu lleol. Rydym yn pryderu, felly, bod y Gweinidog wedi amcangyfrif cost cyfan y Bil yn rhy isel, ac nid yw'n ymddangos fel bod unrhyw arian wrth gefn yn y gyllideb pe byddai hynny'n troi allan i fod yn wir.

**Gwybodaeth ychwanegol**

Fe gytunoch i ddarparu gwybodaeth ychwanegol am:

- Y math o dechnoleg sy'n cael ei ddefnyddio yn Ysgol y Bont ar Ynys Môn i adeiladu ysgol werdd newydd o'r radd flaenaf;
- Cadarnhad o pa gyllideb a gaiff ei defnyddio i ariannu'r cynllun hyfforddiant Meistr;

Bae Caerdydd
Cardiff Bay
CF99 1NA

E-bost /Email: PwyllgorPPI@cymru.gov.uk

- Manylion am y prosiectau a gyflawnwyd drwy'r Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig a'r Grant Addysg Plant Sipsiwn a Phlant Teithwyr a'r Grant Trechu Dadrithiad;
- Os nad oes awdurdod lleol wedi gwneud cais am y Grant Addysg Plant Sipsiwn a Phlant Teithwyr ac wedi tynnu gwasanaethau yn ôl o ganlyniad i hynny.

Diolch am gynorthwyo'r Pwyllgor gyda'i waith, ac edrychwn ymlaen at gael eich ateb i'r pwyntiau a godwyd yn y llythyr hwn mor fuan â phosibl.

Yn gywir

**Christine Chapman AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor**

**Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc**
**Children and Young People Committee**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Lesley Griffiths AC
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd, CF99 1NA

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff CF99 1NA

15 Hydref 2012

Annwyl Lesley

Hoffem ddiolch i chi a'r Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol am ddod i gyfarfod y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar 10 Hydref fel rhan o'n gwaith o graffu ar gynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14.

Hoffai'r Pwyllgor wneud nifer o sylwadau er mwyn i chi eu hystyried. Rydym hefyd wedi ysgrifennu at y Gweinidog Addysg a Sgiliau a bydd cynnwys y ddau lythyr yn cael eu hanfon ymlaen i'r Pwyllgor Cyllid er mwyn ei hwyluso gyda'r gwaith craffu cyffredinol strategol ar y Gyllideb Ddrafft a bydd yn ymddangos ar wefan y Pwyllgor.

**Tryloywder**

Roedd y Pwyllgor yn teimlo bod y dull o gyflwyno'r gyllideb wedi gwella, er bod Aelodau yn dal i bryderu ynghylch y diffyg tryloywder sy'n gysylltiedig â gwariant o'r gyllideb ar blant, yn enwedig o fewn y gyllideb iechyd.

Roedd yr Aelodau hefyd yn pryderu, er gwaethaf ein sylwadau y llynedd ynghylch neilltuo arian, nad oedd egwyddorion cyffredinol wedi'u pennu ynghylch pryd a pham y byddai'r drefn o neilltuo arian yn cael ei defnyddio, ac roedd y drefn i weld yn amrywio rhwng Gweinidogion.

**Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol**

Nododd y Pwyllgor ei bryder nad oedd arian ychwanegol ar gael ar gyfer darparu'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol arfaethedig. Roeddem wedi gobeithio y byddai'r argymhellion yn ein hymchwiliad i fabwysiadu yn gallu dylanwadu ar bolisïau yn y maes hwn ac rydym yn siomedig nad oes unrhyw hyblygrwydd o fewn y gyllideb i wneud newidiadau sylweddol i'r model arfaethedig.

**Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)**

Roedd y Pwyllgor yn pryderu y byddai uno gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc a gwasanaethau oedolion a phobl hŷn mewn un strategaeth, a'r ffaith na fyddai neilltuo arian yn cael effaith bellach ar safon Gwasanaethau Iechyd Meddwl

Bae Caerdydd
Cardiff Bay
CF99 1NA

E-bost /Email: PwyllgorPPI@cymru.gov.uk

Plant a'r Glasoed ac yn ei gwneud hi'n anoddach i fonitro gwariant yn y maes hwn yn y dyfodol.

**CAFCASS Cymru**

Ymhellach i'r sesiwn dystiolaeth, roedd yr Aelodau yn dal yn ansicr ynghylch at pa ddefnydd yn benodol roedd y £527,000 ychwanegol, sydd wedi'i nodi yng nghostau rhedeg CAFCASS Cymru ar gyfer 2013-14, wedi cael ei neilltuo ar ei gyfer a pha ganlyniadau penodol y gobeithir eu cyflawni gyda'r dyraniad ychwanegol hwn.

**Gwybodaeth ychwanegol**

Fe gytunoch i ddarparu'r wybodaeth ychwanegol a ganlyn:

- Pa un ai oes unrhyw adnoddau ar gael drwy'r strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl er mwyn datblygu rhaglenni hyfforddiant addas o ran oedran, ar gyfer staff rheng flaen, er mwyn gallu adnabod a rheoli anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD).
- Pa un ai oes unrhyw adnoddau ychwanegol wedi eu dyrannu ar gyfer gweithredu Cynllun Cenedlaethol Cymru ar gyfer Iechyd y Geg yn benodol mewn perthynas â phlant a phobl ifanc.

Diolch am gynorthwyo'r Pwyllgor gyda'i waith, ac edrychwn ymlaen at gael eich ateb i'r pwyntiau a godwyd yn y llythyr hwn mor fuan â phosibl.

Yn gywir

Chris Chapman.

**Christine Chapman AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor**